

Priddoedd

Dadansoddi Pridd i Ffermwyr

Iechyd a ffrwythlondeb y pridd yw'r allwedd i ffermio llwyddiannus. Mae rheolaeth dda o'r pridd yn dibynnu ar benderfynu cyflwr ffisegol y pridd ac ar ddehongli dadansoddiadau yn effeithiol. Gall dadansoddiadau pridd rheolaidd ddangos effaith arferion ffermio ar ffrwythlondeb y pridd ac fe'i defnyddir i gadw maetholion ar yr amodau mwyaf ffafriol i dyfu cnydau. Isod amlinellir dwy ffordd o ymdrin a dadansoddi pridd.

Mabwysiadwyd Dull "Llawnder" RB209 Defra yn eang yn y Deyrnas Unedig. Defnyddir pH y pridd, mynegrifau o'r P, K a Mg sydd ar gael, ac enghraifft o'r cnwd er mwyn penderfynu maint y mewnbwn o garthion anifeiliaid a gwrtaith sy'n angenrheidiol i gynnal cynnwys maetholion y pridd ar lefel sy'n ddigon i gynnal y cynnyrch economaidd mwyaf posibl tra'n gostwng colledion. Cyhoeddiad RB209 yw sail offer dyfarnu fel PLANET a MANNER ac fe'i sylfaenwyd ar ganlyniadau llawer o flynyddoedd o ymchwil yn y Deyrnas Gyfunol.

'Cloriannu mwynau'- Cymhareb Trwytho Cationau Sylfaen (BCSR)

Wedi ei datblygu gan yr Athro Albrecht yn yr Unol Daleithiau mae damcaniaeth BCSR yn edrych ar gationau maetholion a'u cydbwysedd yn y pridd a chafodd ei seilio ar ddealltwriaeth o'r gallu i gyfnwid cationau (CEC).

- Mae CEC cyfan unrhyw bridd yn fesur o'r rhif uchaf o safleoedd wedi eu llenwi'n negatif all glymu cationau sydd wedi eu llenwi'n bositif mewn dull cyfnewidiadwy. Mae CEC (sy'n cael ei gyfleu fel miligfwerth/100 g o bridd) yn nodweddiadol o'r math o bridd (e.e. mae CEC priddoedd cleiog yn uwch nag un priddoedd tywodlyd) ac nid yw arferion rheolaeth cyffredin yn achosi unrhyw newid o bwys.
- Mae'r ionau cyfnewidiadwy hyn yn gronfa bwysig o faetholion planhigion. Mae gwreiddiau'n ysgarthu ionau hydrogen (H⁺) sy'n gallu disodli'r cationau maetholion o safleoedd cyfnewid yn y pridd i'r toddiant pridd lle byddant ar gael i'w derbyn.
- Mae damcaniaeth BCSR yn datgan bod cymhareb delfrydol o'r gwahanol gationau cyfnewidiadwy yn y pridd sy'n rhoi'r tyfiant planhigion gorau posibl. Mae argymhellion gwrtaith sydd wedi eu seilio ar y ddamcaniaeth hon wedi eu creu i addasu'r dogn o gationau cyfnewidiadwy i'r gymhareb orau posibl.
- Y bedair elfen allweddol yw'r cationau sylfaen: calsiwm (Ca), magnesiwm (Mg), potasiwm (K) a sodiwm (Na) ynghyd ag hydrogen (H) ac aliwminiwm (Al) sy'n penderfynu pH y pridd.
- Penderfynnir argymhellion gwrtaith am faetholion eraill, megis P ac S ar wahan a chant eu seilio ar lefelau trothwy yn hytrach na chymarebau.

Pennodd Albrecht y BCSR gorau posibl ar gyfer priddoedd yr Unol Daleithiau. Ym mhriddoedd y Deyrnas Gyfunol, credir taw'r cydbwysedd delfrydol am y cynhyrchu gorau posibl (mewn canrannau o'r CEC cyfan) yw:

Calsiwm 68%; Magnesiwm 12%; Potasiwm 5%; Sodiwm 1%; Hydrogen 8%; Arall 6% (wrth J. Johnson, 2011)

Roedd y priddoedd yn y ffermydd masnachol yn y cynllun PROSOIL yn amrywio ym mha mor agos yr oeddynt yn cyfateb i'r cydbwysedd 'delfrydol', fel y gwelwch yn y graff:

